**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Durke | M A Langstone | M B Lewis |
| K M Roberts | D W W Thomas | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Bawden | Swyddog Cwricwlwm 14-19 |
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Nick Williams | Prif Swyddog Addysg |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch a/ac L R Jones

---

**29 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd M A Langstone - Personol - cofnod 31 "Effeithiau ar Hyfforddiant Athrawon" - aelod o Lys Prifysgol Abertawe.

**30 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflwyno a Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

**31 Effeithiau ar Hyfforddiant Athrawon. (trafodaethau)**

Rhoddodd Joanna Thomas gyflwyniad PowerPoint manwl a llawn gwybodaeth a oedd yn amlinellu'r rhesymeg a'r cefndir y tu ôl i gais Prifysgol Abertawe i'r Cyngor Gweithlu Addysg i fod yn ddarparwr Hyfforddiant Athrawon. Bydd canlyniadau hyn yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin. Byddai hyn yn caniatáu cyfnod o amser i roi strwythurau staffio ac addysgu priodol ar waith er mwyn dechrau yn nhymor yr hydref 2019.

Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen cysylltiad sy'n fwy seiliedig ar ymchwil ar gyfer prifysgolion sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellodd a chyfeiriodd at y meysydd canlynol:

- Beth fydd yn digwydd yn y dyfodol? Effaith y Fargen Ddinesig a chynigion arloesedd;
- Pa sgiliau fydd eu hangen er mwyn bodloni heriau'r dyfodol - goblygiadau'r fframwaith cymhwysedd digidol a chyfleoedd darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer athrawon a dysgwyr;
- Goblygiadau o ran darpariaeth addysg yn y dyfodol - sut rydym yn paratoi dysgwyr ar gyfer swyddi nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd;
- Materion i'w hystyried - cyfyngiadau cyfrifiaduron, angen hybu creadigrwydd a meddwl yn feirniadol;
- Yr effaith ar addysg gychwynnol i athrawon - angen gallu sicrhau bod athrawon sy'n cael eu cyflogi yn ddigidol gymwys a bod ganddynt sgiliau ymchwil a datrys problemau;
- Rhaglenni partneriaeth newydd - gwreiddio cymhwysedd digidol ar draws darpariaeth ysgolion/prifysgolion, pwysigrwydd ymagwedd thematig ac angen annog gwybodaeth drawsgwricwlaidd
- Cefndir y model ymchwilio/ymholi - cylch adlewyrchol cadarn o weithgareddau, dulliau ymchwilio wedi'u gwreiddio ar gyfer disgyblion a staff, pwysigrwydd rhannu syniadau/canfyddiadau/arfer da;
- Prif nodweddion y model ymchwilio/ymholi - cylch gwaith a rhaglen bartneriaeth;
- Cynllunio a chyflwyno ar y cyd - rhaglen ddigwyddiadau rhoi theori ar waith, adolygu effeithiolrwydd athrawon, effeithiau amddifadedd/dysgu amgen/anghenion addysgol arbennig;
- Hyfforddi ar gyfer dilyniant - mae angen diwygio/gwella'r cynllun mentora i wneud athrawon yn fwy gwydn, hyblyg a chefnogol, rhannu arfer da'n well ag athrawon profiadol, prosiect rhaglen cyfarpar i annog hyfforddi yn hytrach na mentora. Nododd y byddai arian ar gael i gyflogi rhywun i weithio yn lle athrawon sydd wedi cael secondiad i'r rhaglen wrth iddynt ailhyfforddi. Yn ogystal, nododd bwysigrwydd darpariaeth Gymraeg.
- Casgliad - mae angen i athrawon fod yn barod ac yn fodlon newid, DPP mwy penodol a pharhaus ac mae angen newid a gwella agweddau a dyheadau dysgwyr.

Trafododd yr aelodau a swyddogion y problemau a amlinellwyd yn y cyflwyniad yn helaeth ac amlinellon nhw fod llawer o'r cynigion megis gwella sgiliau digidol, materion ynghylch pynciau STEM a gwella hyfforddiant athrawon yn rhai yr oeddent wedi'u nodi a'u codi mewn cyfarfodydd blaenorol. Yn ogystal â hyn, nodon nhw eu cefnogaeth dros y cynigion gan y brifysgol a'u croesawu.

Trafodwyd yr angen i gael mwy o ffocws lleol wrth fynd ymlaen, yn enwedig mewn perthynas ag effaith y Fargen Ddinesig, ac amlinellwyd yr angen i fwydo'r ffocws lleol i'n gwaith rhanbarthol.

Diolchodd y Cadeirydd i Joanne Thomas am ei chyflwyniad.

## 32 Cydlynu Darpariaeth Ôl-16 - Heriau a Chyfleoedd.

Siaradodd Nick Williams a David Bawden i gefnogi'r papurau a ddosbarthwyd ac amlinellodd ddiben a rôl, aelodaeth, atebolrwydd a ffyrdd o weithio yn Rhwydweithiau Dysgu 14-19 ac Ôl-16 Abertawe a ail-ffurfiwyd yn ddiweddar.

Dosbarthwyd strwythur Grŵp Gweithredol y Bartneriaeth Ddysgu, yn ogystal â gwybodaeth am bedwar is-grŵp y rhwydwaith mewn cefnogaeth.

Caiff gwaith a chanlyniadau'r grwpiau hyn eu monitro a'u hadolygu ar ôl y 12 mis cyntaf.

Trafodwyd y gostyngiadau mewn cyllid yn y cwricwlwm 14-19 dros y blynyddoedd diwethaf ac aildrefnu Gyrfa Cymru, sydd wedi cael effaith ar y ddarpariaeth.

Nododd David Bawden ei fod yn ail flwyddyn ei secondiad o Goleg Gŵyr yn y rôl a gofynnwyd iddo archwilio'r ddarpariaeth ôl-16 bresennol. Cyfeiriodd at yr adroddiad a luniwyd yn gynharach eleni, "Diweddariad ôl-16".

Nododd ei fod yn gweithio gyda Choleg Gŵyr, dosbarthiadau'r chweched a Gyrfa Cymru i lunio cynllun a strwythur i gynorthwyo cyfathrebu ag ysgolion.

Cyfeiriwyd at y pynciau canlynol ac fe'u trafodwyd: effaith bosib "Cwricwlwm i Gymru, Cwricwlwm am Oes" (Donaldson), newidiadau i Gymwysterau Cymru, newid ffocws a chyfeiriad Estyn, cynllun pontio a menter y Warant Ieuenctid, effaith y Fargen Ddinesig a mewnbwn o gynllun sgiliau cyflogaeth rhanbarthol.

Amlinellwyd a thrafodwyd y canlynol hefyd: nodau'r gweithgorau yw ceisio gwella materion ynghylch cydweithrediad rhwng ysgolion, gweithio clwstwr/ar y cyd, amserlen gyffredin, darpariaeth addysgu a rennir.

Croesawodd yr aelodau'r cynigion i wella gweithio mewn partneriaeth ar y cyfan, ond ailadroddon eu barn am faterion megis yr angen i hyrwyddo cwricwlwm amgen/crefftau, codi dyheadau pobl ifanc a chynyddu darpariaeth a sgiliau digidol a pheirianneg.

Amlinellodd Mark Jones ei gefnogaeth gyffredinol nodau'r rhwydweithiau dysgu, ond awgrymodd y dylai'r awdurdod fynd ymhellach ac ymdrechu i gyflawni cyfres o nodau mwy penodol a chlir. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran TG, uwch-gynhyrchu a pheirianneg sy'n ystyried anghenion penodol Abertawe yn fwy, o gofio effaith bosib ac anghenion penodol y bydd y Fargen Ddinesig yn eu creu. Byddai hyn yn galluogi'r grŵp i gael nodau a thargedau lleol cliriach.

Croesawodd aelodau'r awgrymiadau uchod a gofynnon i'r Prif Swyddog Addysg (PSA) ystyried y mater. Esboniodd y PSA ein bod ni'n bwriadu llunio grŵp partneriaeth i ganolbwyntio'n benodol ar yr agenda sgiliau yn Abertawe. Byddai hyn yn cysylltu â'r Bartneriaeth Ddysgu Rhanbarthol. Byddai hynny'n cynnwys Aelod y Cabinet dros Addysg ac aelod priodol arall.

Nododd y PSA y byddai'n gwneud hyn yn ogystal ag adrodd yn ôl ar lafar yn y cyfarfod ym mis Ionawr am y Fargen Ddinesig, pynciau STEM a chynigion clwstwr a drafodwyd yng nghyfarfod diweddar y Penaethiaid Uwchradd.

Nododd y Cadeirydd y byddai'r awgrym uchod a meysydd eraill a nodwyd gan y pwyllgor yn cael eu cynnwys yn adroddiad drafft y Cabinet yn y flwyddyn newydd, a fydd yn adlewyrchu'r meysydd a amlygwyd o ran cynnydd.

**33 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor a gweddill blwyddyn ddinesig 2017/2018.

Nodwyd y gall cynrychiolydd o "Gyrfa Cymru" ddod i'r cyfarfod ym mis Ionawr i fynegi barn am ddarpariaeth 14-19. Byddai adroddiad drafft y Cabinet ar y maes hwn yn dod gerbron y pwyllgor yn y flwyddyn newydd.

**Penderfynwyd** amlinellu'r cynllun gwaith, ar yr amod bod y sylwadau uchod yn cael eu nodi.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**